# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Ionawr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6074

# 253(v3)

## Datganiad gan y Llywydd

Cyhoeddodd y Llywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, bod y Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 15 Ionawr.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.21

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 2 a 7 gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.17

**Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad gan Mondi ynghylch colledion swyddi ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint?

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i adroddiadau ynghylch dyfodol Flybe a'i effaith ar faes awyr Caerdydd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.42

Gwnaeth **Leanne Wood** ddatgniad yn llongyfarch Wayne Warren o'r Rhondda wedi iddo ennill Pencampwriaeth Ddartiau BDO a chanmol y gamp.

Gwnaeth **Sian Gwenllian** ddatganiad yn dathlu'r ffaith bod Dafydd Iwan wedi cyrraedd brig gwerthiant iTunes gydag Yma o Hyd.

Gwnaeth **Vikki Howells** ddatganiad yn cofnodi 80 mlynedd ers genedigaeth Leighton Thomas Rees.

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.47

**NDM7226** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2019.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Addysgu Hanes Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.39

**NDM7228** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar addysgu hanes Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Cymru - Trais a Chamdriniaeth Rywiol

Dechreuodd yr eitem am 17.37

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7229** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru :

1. Yn nodi'r cynnydd mewn adroddiadau o drais rhywiol yng Nghymru a Lloegr.

2. Yn mynegi cydymdeimlad ac undod â goroeswyr trais a chamdriniaeth rywiol.

3. Yn gresynu at fethiant parhaus nifer o systemau cyfiawnder troseddol ledled y byd i gynnig cefnogaeth i oroeswyr, a gresynu'r ffaith nad yw goroeswyr, yn rhy aml, yn cael eu credu ac yn cael eu gorfodi i ail-fyw profiadau erchyll drwy brosesau llys dwys, a diwylliannau mewn heddluoedd nad ydynt yn credu dioddefwyr.

4. Yn nodi bod erlyniadau ar gyfer trais rhywiol ac euogfarnau yng Nghymru a Lloegr ar eu lefelau isaf ers degawd, a bod gwella cyfraddau euogfarnu'n rhan hanfodol o strategaeth atal trais.

5. Yn nodi bod comisiwn Thomas wedi dadlau mai dim ond datganoli deddfwriaethol llawn, ar y cyd â phwerau gweithredol, fydd yn goresgyn rhwystrau'r setliad datganoli presennol o ran mynd i'r afael â diffyg cyfiawnder ac atebolrwydd y status quo.

6. Yn galw i gefnogaeth a gwasanaethau ymosodiad rhywiol fod ar gael a chael eu hariannu'n ddigonol, ac i lysoedd gael eu haddasu fel y bydd dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn, nid eu dychryn, wrth roi tystiolaeth.

7. Yn galw i ddatganoli cyfiawnder fel y gallwn fynd i'r afael â'r cyfraddau euogfarnu isel hyn drwy fabwysiadu arfer gorau rhyngwladol ar gynyddu cyfraddau euogfarnu ac atal camdriniaeth a thrais rhywiol.

Adroddiad Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru – Hydref 2019

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- |
| 35 | 2 | 12 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.45

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.45

**NDM7227 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Dathlu Arwyr Cymru: Cyfraniad arwyr Cymru i broffil rhyngwladol ein gwlad.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.00

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2020**